Ysgol Gymraeg Coed y Gof
Pentrebaen, Caerdydd, CF5 3SG
Rhif ffôn: 029 2056 4585
Rhif ffôn symudol: 07985 312153

Ysgol Gymraeg Coed y Gof
Pentrebane, Cardiff, CF5 3SG
Phone: 029 2056 4585
Mobile phone no: 07985 312153

30.09.21

Annwyl Rhieni / Ofalwyr,

Rydym yn hapus ac yn gyffrous i gyhoeddi ein bod am barhau i gynnig sesiynau Ysgol y Goedwig fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Bydd disgyblion y dosbarth Derbyn hefyd yn cael profiad o wersi yn y goedwig am y tro cyntaf.

Yn seiliedig ar fodel addysgol o Sgandinafia, mae'n rhoi cyfle i blant magu annibyniaeth, hunanddatblygiad a hunanhyder trwy gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau cyffrous yn yr amgylchedd allanol. Fe fydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn ein hardal coedwig, ac oherwydd natur y gwersi, mi fydd eich plentyn yn mynd yn fwdlyd ac yn wlyb.

Ar y diwrnod priodol, rydym yn gofyn yn garedig y bod y dysgwyr yn mynychu'r ysgol yn eu gwisg ysgol. Mi fyddant yn newid i mewn i'w gwisgoedd Ysgol y Goedwig yn y dosbarth ac yn newid yn nôl i'w gwisg ysgol ar ôl y sesiwn.

**A allwch sicrhau fod gan eich plentyn:**

**3 haen o ddillad (crys-t / top llewys hir / cot law)**
**Trowsus gwrth-ddŵr/ hen bar o drowsus**
**Esgidiau glaw**
**Sannau trwchus**
**Het, sgarff a menyg**
**Tywel i sychu**

RHOWCH ENW EICH PLENTYN AR BOB EITEM

Mae croeso i chi gysylltu gyda athro dosbarth eich plentyn os oes gennych gwestiynau pellach.

Diolch yn fawr,

*G Roberts*

Mr G Roberts
(Cydlynydd Ysgol Y Goedwig)